Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pontygwaith
# Graig Street
# Pontygwaith
# Glynrhedynog
# RhCT
# CF43 3LY

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pontygwaith

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Pontygwaith wedi'i lleoli ym mhentref Pontygwaith, ger Y Porth yng Nghwm Rhondda, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd, mae 185 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 24 o ddisgyblion meithrin, y mae 15 ohonynt yn mynychu'n rhan-amser.

Mae tua 29% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn hefyd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2011. Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.  Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu a dangosant falchder mawr yn eu hysgol a'u gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.  Ceir cynllunio effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.  Er bod meysydd addysgu cryf yn yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu a'r adborth i ddisgyblion yn amrywio ar y cyfan.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o ofal a pharch am ei gilydd.  Mae trefniadau ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion targedig i wneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda ac yn cael cymorth cryf gan y dirprwy bennaeth, uwch arweinwyr a chorff llywodraethol gwybodus.  Maent wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anfantais a lleihau rhwystrau rhag dysgu'r disgyblion.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod addysgu ym mhob dosbarth yn herio disgyblion o bob gallu yn gyson, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Mireinio adborth athrawon fel ei fod yn galluogi disgyblion i ddeall yn glir yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A3 Codi safonau mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd islaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni'n ddigon da.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan oedolion. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu eu syniadau'n frwdfrydig ac yn mwynhau trafod eu gwaith. Wrth ddarllen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau i ganfod geiriau newydd yn dda. Maent yn darllen yn glir a gyda rhuglder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol ar draws y cyfnod sylfaen. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n dda mewn ystod addas o genres ac yn defnyddio atalnodi'n briodol, er enghraifft wrth lunio erthyglau papur newydd diddorol ar storm Emma.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad â hyder cynyddol. Maent yn parchu safbwyntiau a barn ei gilydd ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd soffistigedig y mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn trafod cynlluniau ar gyfer eu cystadleuaeth Cwpan y Byd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddarllen ac maent yn trafod eu llyfrau'n dda. Ym Mlwyddyn 6, defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol wrth chwilio am wybodaeth am destunau amrywiol, er enghraifft effaith y Blits ar Abertawe. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o genres a chyd-destunau ac yn defnyddio atalnodi a pharagraffau'n effeithiol i strwythuro eu gwaith. Er enghraifft, maent yn creu darnau gwaith ysgogol ar chwedlau Groegaidd ac yn esbonio eu dewisiadau'n llwyddiannus i oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn hyderus mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau cyfathrebu sylfaenol yn Gymraeg. Defnyddiant eirfa gyfarwydd i ymateb i gwestiynau a dechrau sgyrsiau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar y gallu i ymestyn eu medrau sgwrsio ac mae eu geirfa yn aml wedi'i chyfyngu i ymadroddion a geiriau syml. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau llafaredd Cymraeg yn ddigon aml y tu allan i wersi Cymraeg.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda ac yn gwneud cynnydd da. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn ystyrlon mewn sefyllfaoedd ymarferol. Er enghraifft, maent yn adio arian tra byddant yn cymryd arnynt eu bod yn siopa ac yn creu patrymau cymesur ar

gyfer gemwaith Celtaidd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth, medrau a dealltwriaeth dda sy'n briodol i'w hoedran. Maent yn creu siart cyfrif i gofnodi hoff ffrwythau yn y dosbarth ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu graff bloc. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall rhif yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddarllen y tymheredd dyddiol ar raddfa thermomedr ac yn canfod cyfaint trwy gyfrif ciwbiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd da mewn mathemateg wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn canfod perimedr siapiau cyfansawdd, yn newid rhwng amser analog a digidol, yn defnyddio cyfesurynnau yn y cwadrant cyntaf, yn cyfrifo ffracsiynau niferoedd ac yn ymchwilio i batrymau mewn llwybrau taith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr hyderus a chymwys. Maent yn adio a thynnu degolion i ddau le degol, yn ymchwilio i gyfuniadau o sgwpiau gwahanol flas mewn côn hufen iâ, yn canfod cymedr ac amrediad set o ddata ac yn mesur onglau i'r ongl agosaf. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau heblaw mathemateg. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn cyfrifo dogn bwyd wythnosol i unigolyn a oedd yn byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn casglu data ac yn ei gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn graffiau. Mae disgyblion yn defnyddio codau ymateb cyflym yn llwyddiannus i gofnodi gwybodaeth yn eu llyfrau ac mewn rhannau amrywiol o'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu gwybodaeth am ystod eang o gymwysiadau TGCh yn eithriadol o dda. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n rheolaidd ar-lein gan ddefnyddio ystod helaeth o fedrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae perthnasoedd gweithio cryf rhyngddyn nhw a staff. Mae disgyblion yn gwrtais iawn tuag at staff ac at ei gilydd ac mae bron pob un ohonynt yn garedig a gofalgar. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ystod amser chwarae pan fydd cyfeillion yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion ar y maes chwarae ac yn defnyddio mainc ffrindiau ac ardal lle gall disgyblion fyfyrio'n gyfrifol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol ac maent yn awyddus i rannu eu barn a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o arferion dosbarth ac maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi ac maent yn ymdawelu'n gyflym ac yn gweithio'n bwrpasol ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn effeithiol â phrofiadau dysgu ac yn dyfalbarhau'n dda â thasgau dysgu newydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dangos brwdfrydedd mawr wrth iddynt ymchwilio i'r lleuad ac yn ystod eu gweithgaredd am deigr a ddaeth i gael te. Mae disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn ymgymryd yn llwyddiannus â phrofiadau dysgu go iawn yn ystod eu gwaith thematig ar gemeg pan fyddant yn dysgu sut i wneud sebon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill ac yn cydweithio'n dda mewn gwersi.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan weithredol yn yr ysgol. Maent yn siarad yn rhwydd am ystod y rolau arwain sydd ar gael iddynt lle gallant gyfleu eu barn. Mae'r rolau hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth aeddfed o'u cyfrifoldebau cymunol a dod yn ddinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn heini ac iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn addysg gorfforol fel rhan o'u cwricwlwm ac yn y gweithgareddau allgyrsiol amrywiol a gynigir, fel pêl-droed a phêl-rwyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod at bwy i droi os byddant yn pryderu, ac maent yn hyderus y bydd staff yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi yn gyflym ac yn effeithlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae gan y rhan fwyaf o staff berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'r modd y mae plant ifanc yn dysgu ac maent yn creu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae hyn yn sicrhau bod strategaethau addysgu o ansawdd da yn cael eu cyflwyno trwy gydol y cyfnod sylfaen. Ceir cydbwysedd da o dasgau dan gyfarwyddyd yr athro a gweithgareddau dysgu sy'n cael eu harwain gan blant. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd awyr agored i annog chwarae dychmygus a chreadigol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn defnyddio technegau holi treiddgar yn dda i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae'r addysgu yn defnyddio ystod o gwestiynau ysgogol i hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn effeithiol wrth iddynt drafod teithiau Gulliver. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu disgyblion ac yn arwain gweithgareddau grŵp bach yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae amrywiad yn ansawdd ac effaith yr addysgu. Mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac nid ydynt yn sefydlu cyflymdra dysgu priodol. O ganlyniad, mae disgyblion o bryd i'w gilydd yn treulio gormod o amser ar dasgau nad ydynt yn heriol, ac ni chânt gyfleoedd digonol i atgyfnerthu eu dysgu.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw staff yn dangos yn gyson i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. At ei gilydd, mae athrawon yn gosod targedau unigol ar gyfer disgyblion, ond nid ydynt yn cynnwys disgyblion mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn rheolaidd.

Mae ffocws clir ar fedrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh yng nghynlluniau athrawon ac fe gaiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar safonau. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael eu hintegreiddio'n llawn mewn cynlluniau gwaith. Adlewyrchir hyn yn glir yng ngallu disgyblion i ddatblygu eu medrau yn systematig wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae

gweithgareddau thematig pwrpasol yn darparu profiadau ysgogol ar gyfer disgyblion sy'n ennyn eu diddordeb yn dda. Er enghraifft, mae testunau fel 'Am Fyd Rhyfeddol' ('What A Wonderful World') a'r 'Blits' yn hyrwyddo datblygiad medrau ymchwiliol ac annibynnol disgyblion hŷn yn llwyddiannus ac yn sicrhau cydbwysedd da rhwng profiadau yn y dyniaethau a'r gwyddorau.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau ehangach i ddisgyblion wella'u dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymweld â Chastell Caerdydd, ac mae disgyblion hŷn yn mynd ar ymweliadau preswyl i ganolfannau antur. Mae'r clybiau allgyrsiol a gynigir, er enghraifft chwaraeon, dawns ac ystod eang o weithgareddau'r Urdd, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion.

Mae mwyafrif y staff yn modelu'r Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r iaith yn naturiol o fewn y diwrnod ysgol ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Mae athrawon yn sicrhau bod amlygrwydd priodol yn cael ei roi i dreftadaeth Gymreig trwy Eisteddfod flynyddol yr ysgol ac ymweliadau preswyl â Chanolfan yr Urdd yn Llangrannog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu llawer o raglenni ymyrraeth buddiol i gynorthwyo disgyblion y mae angen iddynt wella eu medrau llythrennedd a rhifedd a helpu'r rheiny ag anghenion emosiynol. Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau addysg unigol gwerth chweil, sy'n addas ar gyfer plant, sy'n cynnwys targedau cyflawnadwy ac yn nodi'n glir y camau nesaf mewn dysgu. Mae disgyblion a rhieni'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at y prosesau hyn ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall y targedau'n llawn. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ystod o ddulliau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau perthnasoedd cryf â rhieni. Er enghraifft, mae gwefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol amrywiol a chymwysiadau TGCh yn darparu gwybodaeth fuddiol am ddigwyddiadau'r ysgol a chyflawniadau disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod fuddiol o gyfleoedd i rieni ymgysylltu â'r ysgol a dysgu sut i gynorthwyo dysgu eu plant. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdai pwrpasol i helpu rhieni i hyrwyddo medrau darllen eu plant. Yn ychwanegol, mae ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd yn darparu llawer o gyfleoedd i rieni ddysgu sut i gefnogi lles a dysgu eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Mae staff wedi sefydlu cymuned ofalgar sy'n llwyddo i feithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion a'u diddordebau unigol yn briodol. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad da yn yr ysgol, ac o gwmpas yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gwersi addysg gorfforol rheolaidd ac ystod eang o ddigwyddiadau allgyrsiol yn hyrwyddo

ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu digwyddiadau chwaraeon rheolaidd yn yr ardal, sy'n cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch a datblygiad personol disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu addysg foesol, gymdeithasol, ddiwylliannol ac ysbrydol disgyblion. Mae gwasanaethau'n darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ar sut gallant fod yn ddinasyddion aeddfed a moesegol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu galluoedd creadigol. Er enghraifft, mae gwaith celf ysgogol disgyblion i'w weld o gwmpas yr ysgol a rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau'r Urdd, fel canu a dawnsio.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth ac uwch staff yn fodelau rôl hynod effeithiol sy'n arwain trwy esiampl ac yn creu gweledigaeth a diben cryf ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan. Maent yn dosbarthu arweinyddiaeth yn effeithiol iawn fel bod gan bob un o'r staff ran mewn gwella'r ysgol. Mae gan staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau amgylchedd cefnogol a gofalgar sy'n hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae arweinwyr yn y cyfnod sylfaen yn fedrus iawn yn creu amgylchedd dysgu ysgogol a chwricwlwm difyr sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae gan y llywodraethwyr rôl bwysig yn yr ysgol. Maent wedi ymrwymo'n dda i gymuned yr ysgol ac yn herio'r ysgol yn gadarn. Maent yn monitro cyllid yr ysgol yn arbennig o dda. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i wella dysgu disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn dda.

Mae gan arweinwyr hanes da o wella darpariaeth yr ysgol sydd, yn ei dro, wedi gwella perfformiad disgyblion. Er enghraifft, mae cyflwyno dulliau newydd o addysgu rhifedd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u defnydd o rif. Mae arweinwyr wedi rheoli newid yn fedrus hefyd. Er enghraifft, maent wedi llwyddo i integreiddio nifer fawr o ddisgyblion a gyrhaeddodd yn ddiweddar o ysgol leol a gaewyd, ac wedi creu cymuned ysgol fywiog.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant ac ethos cryf i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Caiff staff gymorth a hyfforddiant pwrpasol gan gydweithwyr a chan uwch arweinwyr yn ogystal. Caiff cynorthwywyr addysgu hyfforddiant gwerth chweil sy'n eu gwneud yn fwy effeithiol yn eu rolau. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar gyfer cyflwyno rhaglen gymdeithasol ac emosiynol i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn profi i fod yn effeithiol iawn. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dda i ysgogi gwelliant ac maent yn cysylltu targedau â chynlluniau gwella ysgol gyfan yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn arfarnu ei pherfformiad yn fanwl gywir gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau llwyddiannus, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a thrwy siarad â disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr yn deall cryfderau a gwendidau'r ysgol yn dda. Er enghraifft, mae meysydd i'w gwella mewn addysgu wedi cael eu

nodi'n gyflym a chamau wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r materion. Fodd bynnag, ni chaiff dealltwriaeth graff arweinwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol ei chyfleu'n glir yn yr adroddiad i lywodraethwyr nac yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol bob amser.

Mae arweinwyr yn llunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella'r ysgol sy'n nodi'n glir y deilliannau disgwyliedig, y camau y dylid eu cymryd, cyfrifoldebau staff a'r cyllid angenrheidiol. Mae'r holl flaenoriaethau yn y cynllun yn deillio o adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Mae'r cynllun yn sicrhau gwelliannau pwysig ym mherfformiad disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafaredd o ganlyniad.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ysgolion lleol eraill i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae'r grwpiau clwstwr ysgol uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau cyfnod pontio esmwyth i ddisgyblion sy'n symud i Flwyddyn 7. Er enghraifft, mae ymweliadau pwrpasol â'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn y disgyblion yn darparu profiadau gwerth chweil o ystod eang o bynciau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn hyderus a chyffrous ynglŷn â symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau agos ag ysgolion eraill yn y consortiwm i wella cymhwysedd digidol disgyblion. Mae'r arweinwyr digidol medrus sydd wedi eu cymell yn dda iawn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y bartneriaeth strategol hon.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2018